

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Nia Heledd Jones

Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

5/9/2017

Presennol: Heledd Jones (Cadeirydd), Alwyn E Jones (Is-gadeirydd), Huw Antur, Beryl Hughes Griffiths, Arwel Lloyd Jones, Heledd Jones, Alwyn Roberts, Huw P Roberts

Alan Jones Evans, (Cynghorydd Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

Ymddiheuriadau: Dewi Jones, Karl Jones, Rhodri Jones, Ian Trow

1741 Sylwadau'r Cadeirydd: Wrth groesawu pawb, mynegodd y Cadeirydd balchder yr ardal yn llwyddiant Steffan Prys yn ei gamp o ennill y Rhuban Glas yn Eisteddfod Genedlaethol Môn. Llongyfarchodd Arwel Lloyd Jones ar gael ei urddo i'r Orsedd, y parti gwerin llwyddiannus "Eryrod Meirion" a phawb arall o'r ardal a gyfrannodd at lwyddiant yr Eisteddfod. Hefyd llongyfarchodd disgyblion yr ardal ar eu hymdrechion a'u llwyddiant mewn arholiadau.

1742 Cyhoedd: Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

1743 Buddiant: Nid oedd datganiadau buddiant.

1744 Cofnodion: Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Gorffennaf 4ydd a Chyfarfod Brys Gorffennaf 21.

1745 Materion y Clerc :

- i. 1738ii Mae aelodau Ysgol O M Edwards wedi derbyn yr her o i gynnal y gwely blodau wrth fynedfa maes parcio'r fynwent, a dymuna'r Cyngor ddiolch iddynt am eu parodrwydd i wasanaethu'r gymuned.
- ii. 1740 Derbyniwyd ymateb positif gan Llywodraeth Cymru i sylwadau'r Cyngor am gladdu gwastraff niwclear. "Er bod Llywodraeth Cymru'n cefnogi gwaredu gwastraff ymbelydrol yn ddaearegol, gallwch fod yn dawel eich meddwl na fyddwn yn targedu cymunedau nac yn ceisio dylanwadu na dwyn perswâd ar unrhyw gymuned i dderbyn gwastraff o'r fath yn eu hardal. Ni chaiff gwastraff ymbelydrol ei gladdu yng Nghymru oni all y gymuned sy'n ei dderbyn brofi bod trigolion yr ardal yn cefnogi hynny."

1746 Cyngor Gwynedd: Derbyniwyd Adroddiad y Cynghorydd Sir a mynegodd ei ofid nad ydyw'r Cytundeb torri gwair ar ochr y ffordd wedi bod yn llwyddiannus ym Meirionnydd eleni eto. Dywedodd y byddai'n brwydro i sicrhau mai pobl leol fydd yn cael y gwaith yn y dyfodol a bydd yn ceisio sicrhau fod cefnogaeth ar gael iddynt wrth ymgeisio am y gwaith.

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Nia Heledd Jones

1747 Un Llais Cymru:

- i. Ystyriwyd y rhaglen hyfforddiant a mynegwyd diddordeb yn hyfforddiant Hydref – i'w drafod eto.
- ii. Nid oedd Cynghorwyr ym medru mynychu cynhadledd flynyddol Un Llais Cymru.

1748 Materion ariannol:

- i. Cyflwynodd y Clerc y Ffurflen Flynyddol wedi ei harchwilio gan BDO i'r Cyngor ac fe wnaeth y Cyngor gymeradwyo a derbyn y ffurflen orffenedig.
- ii. Cytunwyd i wneud taliadau'r mis.

1749 Materion Eiddo'r Cyngor:

- i. **Y Fynwent:** Cytunwyd i fynd ati i dacluso'r fynwent ar 13/9/17 am 6.30 o'r gloch - B Swyddog y Fynwent i ail-drefnu os bydd y tywydd yn anffafriol.
- ii. Bydd yr is-bwyllgor yn rhoi ystyriaeth i fater cyrbiau yn eu cyfarfod nesaf.
- iii. Bydd Alan Jones Evans yn cysylltu gyda Swyddogion Gwynedd i wneud trefniadau ar gyfer gwagio biniau'r fynwent.
- iv. **Mynwent yr Eglwys:** derbyniwyd telerau busnes y cyfreithwyr ar gyfer gwerthu a gofynnwyd i'r Clerc sicrhau na fyddai mwy o gostau ymhlyg yn y trosglwyddiad.
- v. **Eiddo arall:** Ni dderbyniwyd pryderon am eu cyflwr.

1750 Materion lleol: Adroddodd Huw P Roberts fod gwaith yn cael ei wneud i glirio Afon Lliw; mynegwyd y gobaith y byddai'r gwaith yn lleihau llifogydd ar hyd yr A494.

1751 Partneriaeth Penllyn: Adroddodd y Cynrychiolwyr fod holl ystafelloedd yr Henblas yn llawn ar hyn o bryd a bod y cais am grant Loteri i wella'r llawr uchaf ar y gweill.

1752 Gohebiaeth:

1. **Gwynedd:** Derbyniwyd gwybodaeth fod dogfennau perthnasol i Gynllun Datblygu Lleol ar y cyd Gwynedd a Môn (2011 – 2026) i'w gweld yn Siop Gwynedd, Penarlâg, Dolgellau ac ar y we www.gwynedd.llyw.cymru/cdll
2. **Parc Cenedlaethol Eryri:**
 - i. Derbyniwyd ymholiad gan Parc Cenedlaethol Eryri am wybodaeth am berchnogaeth Bronant Stores ond nid oedd gwybodaeth bellach ar gael gan y Cynghorwyr.
 - ii. Ystyriwyd Llythyr o Gytundeb ar gyfer gwaith cyfalaf ar Lwybr y Cei. Cytunwyd i arwyddo'r Cytundeb ar ôl clywed sylwadau Rhodri Jones a Huw P Roberts. Rhoddwyd ystyriaeth i dendrau nifer o gontractwyr lleol am y gwaith. Diolchwyd i'r ddau Gynghorydd am ymwneud â'r dasg hon. Nodwyd fod angen gadael tyfiant ar ôl ar gyfer gwaith plygu'r flwyddyn nesaf.
 - iii. Cadarnhawyd cymeradwyo cais NP5/54/E554 i osod cyflenwad trydan tanddaearol rhwng Hywel Dda a Chapel Soar Rhydymain.

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Nia Heledd Jones

3. **Llywodraeth:**
 - a. Derbyniwyd gwybodaeth bod angen “Datganiad o’r Effaith ar Dreftadaeth” i gefnogi unrhyw gais am gydsyniad adeilad rhestredig neu ardal gadwraeth yng Nghymru.
 - b. Nodwyd derbyn gwybodaeth am Grant y Gymraeg 2050.
4. **Plounevez:** Rhoddwyd enwau Alwyn E Jones, Alwyn Roberts, Arwel Lloyd Jones a’r Clerc ymlaen fel cynrychiolwyr i’r pwyllgor gefeillio.
5. **Mantell Gwynedd:** nodwyd derbyn gwahoddiad i’r Gynhadledd Flynyddol.

Cadarnhawyd dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: 3/10/17 yn y Neuadd Bentref